Ffeil ffeithiau Creigiau a phriddoedd

# Creigiau a phriddoedd

## Beth yw daearegydd?

Mae daearegydd yn astudio’r Ddaear a sut mae wedi’i gwneud. Efallai y bydd yn edrych ar yr arwyneb neu’n ddwfn o dan y ddaear. Mae daearegwyr yn gweithio mewn llawer o wahanol ddiwydiannau, fel:

- cloddio a chwarela
- peirianneg
- olew a phetrolewm
- diogelu’r amgylchedd
- fylcanoleg (astudio llosgfynyddoedd)
- seismoleg (astudio daeargrynfeydd)
- British Lithium (cwmni cloddio).

Y **Dysgu Allweddol** a’r **Sgiliau Gwyddoniaeth** sy'n angenrheidiol:

- Chwilfrydedd ynghylch y byd o’u cwmpas oherwydd bydd daearegwyr yn defnyddio mapiau i deithio’r byd, gan dreulio amser yn yr awyr agored.
- Arsylwi a chofnodi eu canfyddiadau’n ofalus a chyflwyno manylion cywir ynghylch yr hyn sydd yn y ddaear.



*Dyma Lucy Crane. Mae hi’n ddaearegydd sy’n gweithio gyda chwmni sy’n bwriadu cloddio am lithiwm i’w ddefnyddio mewn batris ar gyfer ceir trydan.*

## Beth yw gwyddonydd pridd?

Mae gwyddonydd pridd yn astudio'r pridd o dan ein traed. Mae hyn yn bwysig mewn llawer o ddiwydiannau, fel:

- ffermio
- diogelu’r amgylchedd
- adeiladu a thirlunio.

Y **Dysgu Allweddol** a’r **Sgiliau Gwyddoniaeth** sy'n angenrheidiol:

- Diddordeb yn y byd naturiol ac yn mwynhau bod yn yr awyr agored yn dysgu am briddoedd a sut maen nhw’n helpu planhigion.
- Cyflawni profion syml i ganfod y mathau o bridd a sut i’w defnyddio.



*Dyma Sahil. Mae o’n wyddonydd pridd sy’n gweithio mewn gwahanol rannau o'r byd. Mae wedi bod yn astudio sut mae gwahanol blanhigion yn helpu i wella'r pridd mewn gwledydd sych.*

## Beth yw paleontolegydd?

Mae paleontolegydd yn astudio ffosiliau (gan gynnwys dinosoriaid!) i ddysgu am hanes bywyd ar y Ddaear. Mae paleontolegwyr yn gweithio mewn gwahanol leoedd, gan gynnwys:

- amgueddfeydd
- prifysgolion
- yn yr awyr agored yn datgloddio ffosiliau.

Y **Dysgu Allweddol** a’r **Sgiliau Gwyddoniaeth** sy'n angenrheidiol:

- Amynedd a gwytnwch wrth ddefnyddio offer yn ofalus i ddod o hyd i ffosiliau a’u datgelu.
- Arsylwi’n ofalus gan ddefnyddio dulliau adnabod a dosbarthu (didoli a grwpio) i ddod o hyd i ffosiliau newydd a chanfod i ba ddinosor roedden nhw’n perthyn.



*Dyma Xu Xing. Mae o'n baleontolegydd ac yn gweithio yn Tsieina. Mae wedi enwi mwy o ddinosoriaid nag unrhyw baleontolegydd byw arall.*

*Fyddech chi’n hoffi defnyddio’r hyn rydych chi’n ei ddysgu am greigiau a phriddoedd pan fyddwch chi’n hŷn? Efallai y byddech chi'n hoffi bod yn ddaearegydd neu'n baleontolegydd? Tybed a oes rhagor o swyddi sy’n defnyddio'r hyn a ddysgir am greigiau a phriddoedd?*

ROYAL SOCIETY OF CHEMISTRY